***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 130

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008

## RHAN 10

*Amrywiol*

**Amddiffyniad ynghylch symud ar gyfer triniaeth filfeddygol frys**

**31.** Mae'n amddiffyniad i unrhyw berson sydd wedi ei gyhuddo o fynd yn groes i, neu beidio â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn sy'n ymwneud â symud anifail o ddaliad heb roi neu osod arno y modd adnabod sy'n ofynnol i brofi bod yr anifail wedi cael ei symud o'r daliad er mwyn cael triniaeth frys gan filfeddyg.

**Pwerau arolygwyr**

**32.**—(1) Caiff arolygydd, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â gorfodi'r Gorchymyn hwn—

(a) casglu, corlannu a marcio unrhyw anifail a'i gwneud yn ofynnol i geidwad drefnu casglu, corlannu, marcio a diogelu unrhyw anifail;

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r ceidwad ddangos neu gopïo unrhyw ddogfen neu gofnod;

(c) symud neu gadw unrhyw ddogfen neu gofnod;

(ch) cael mynediad at, a gwirio gweithrediad, unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â chofnodion;

(d) os cedwir cofnod drwy gyfrwng cyfrifiadur, ei gwneud yn ofynnol bod y cofnod yn cael ei ddangos ar ffurf y gellir ei dwyn ymaith;

(dd) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dagiau adnabod nas defnyddiwyd, a chofnod o'u Rhif au gael eu dangos;

(e) mynd â chynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd gydag ef sy'n gweithredu at ddibenion Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor, neu fynd ag unrhyw bobl neu bethau gydag ef y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol.

(2) Os yw'n ofynnol i berson wneud unrhyw beth i arolygydd sy'n gweithredu o dan baragraff (1) rhaid iddo, oni fydd ganddo achos rhesymol, wneud hynny'n ddi—oed.

**Pŵer i wahardd symud anifeiliaid**

**33.**—(1) Caiff arolygydd, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad, wahardd symud diadell o ddefaid i'r daliad a bennir yn yr hysbysiad neu ohono, os yw wedi'i fodloni bod y gwaharddiad yn angenrheidiol ar gyfer gorfodi'n briodol y Gorchymyn hwn o ran y ddiadell honno.

(2) Caiff arolygydd, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad, wahardd symud geifre i'r daliad a bennir yn yr hysbysiad neu ohono, os yw wedi'i fodloni bod y gwaharddiad yn angenrheidiol ar gyfer gorfodi'n briodol y Gorchymyn hwn o ran yr eifre honno.

(3) Caniateir diwygio neu ddirymu hysbysiad a gyflwynir o dan yr erthygl hon drwy hysbysiad ychwanegol ar unrhyw adeg.

### Gwybodaeth anwir

**34.** Rhaid i berson beidio â rhoi gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol i berson sy'n gweithredu o dan y Gorchymyn hwn.

### Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

**35.**—(1) Os dangosir bod tramgwydd wedi'i gyflawni yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 gan gorff corfforaethol—

(a) gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog; neu

(b) os priodolir ef i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y swyddog yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o dramgwydd ac yn atebol i gael achos yn eu herbyn a'u cosbi yn unol â hynny.

(2) Os bydd materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys o ran gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'n gyfarwyddwr y corff corfforaethol.

(3) ystyr "swyddog", o ran corff corfforaethol, yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforaethol, neu berson sy'n cymryd arno ei fod yn gweithredu yn y cyfryw swydd.

### Gorfodi

**36.**—(1) Bydd y Gorchymyn hwn yn cael ei orfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, fod gorfodi dyletswydd a osodir ar awdurdod lleol o dan y Gorchymyn hwn i'w gyflawni gan Weinidogion Cymru ac nid gan yr awdurdod lleol.

### Dirymu

**37.** Dirymir y canlynol—

(1) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006(**1**); a

(2) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Cymru) 2006(**2**).

(**1**) O.S. 2005/1036 a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/2926.
(**2**) O.S. 2006/2926.